

Sut i dapio bedw

Dylech dapio coed dim ond ar ôl cael caniatâd y tirfeddiannwr.

Mae sap bedw yn llifo am dair wythnos ym mis Chwefror/Mawrth. Bydd coeden nodweddiadol yn llifo am 8-10 diwrnod felly gallwch ychwanegu coed wrth i'r rhai cyntaf ddechrau sychu.

Dewisiwch goed:

- sydd â diamedr mwy na 20 cm ar uchder o 1.3 m oddi ar y llawr
- nad oes ganddynt arwyddion o bydrn na niwed ar y boncyff
- sydd â chorun wedi'i ddatblygu'n dda

Marcwch y coed i'w gwneud yn haws i'w hadnabod oherwydd efallai na fyddwch yn dymuno eu tapio y flwyddyn nesaf. Gallwch dapio coeden fwy nag unwaith ac rydym yn gwneud arbrofion i ganfod beth sy'n gynaliadwy.



Dylid gosod tapiâu rhwng 40-80 cm i fyny'r boncyff gan ddilyn y camau canlynol.

1. Glanhewch a diheintiwch y boncyff yn safle'r tapiâu
2. Defnyddiwch ddarn dril 8 mm i wneud twll â dyfnder o 4 cm ar ychydig o ongl tuag at i fyny yn y boncyff, a golchwch unrhyw lwch allan
3. Gosodwch bostyn plastig 8 mm a'i dapio i mewn yn ofalus - gofawch rhag i chi hollti'r boncyff
4. Glynwch y tiwb a'r botel gasglu, cadwch yr hyd yn fyr ar y tu mewn
5. Clymwch y botel i lawr mewn safleoedd gwyntog a'i chysgodi, yn enwedig os yw'n wynebu'r haul



Dylai'r botel gasglu fod yn o leiaf 5 litr o faint gyda chap a thwll ynddo sydd â digon o le i diwb 8 mm a thwll aer bach.

Bydd coeden dda yn cynhyrchu rhwng 10 a 20 litr o sap y diwrnod. Felly, dylai 10 coeden roi oddeutu 200 litr sy'n ddigon i wneud 2 litr o surop. Bydd angen i chi ystyried yn ofalus faint o sap sy'n ddigon i chi a pheidiwch â thapio mwy o goed nag sydd eu hangen. Mae sap yn hynod fyrhoedlog felly bydd angen i chi naill ai ei brosesu'n syth neu ei rewi.

Dylid casglu sap yn ddyddiol. Arllwyswch i mewn i fwced â chaead i gludo'r sap o'r coetir. Golchwch y poteli gydag ychydig o ddŵr glân a gosodwch rai newydd ar y goeden.

Mae sap bedw yn
hynod fyrhoedlog
– mae hylendid yn hollbwysig

Rhowch y gorau i'r casglu pan mae'r sap yn troi'n gymylog, yn felyn/gwyrdd neu os oes arogl arno. Tynnwch y postyn yn ofalus. Dylech adael y twll yn agored - bydd yn edrych ychydig yn flêr ond bydd y llif yn peidio cyn gynted ag y bydd dail yn agor a gall y goeden wella ei hun.

Mae adnoddau, rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt i'w cael ar wefan prosiect **Dewis Gwyllt**:

www.dewisgwyllt.co.uk

How to tap birch

You must only tap trees with the permission of the landowner.

Birch sap flows for three weeks in February/March. A typical tree will run for 8-10 days so you can add extra trees as the first start to dry up.

Select trees:

- greater than 20 cm diameter at 1.3 m from the ground
- without signs of rot or damage on trunk
- with well-developed crowns

Mark trees to make them easier to recognise as you may not wish to tap them the next year. You can tap a tree more than once and we are experimenting to find out what is sustainable.



Taps should be installed between 40-80 cm up the trunk following these steps.

1. Clean and sterilise bark at tapping site
2. Use a sterile 8 mm drill bit to make a 4 cm deep hole angled slightly upwards into trunk, wash out any sawdust
3. Insert an 8 mm spile and tap in gently - avoid splitting the bark
4. Attach tube and collection bottle, keep the length inside short
5. Tie bottle down on windy sites and keep shaded especially if facing the sun



The collection bottle should be minimum 5 litre size with cap drilled to accept an 8 mm tube with a small breather hole.

A good tree will produce between 10 and 20 litres of sap in a season. So, 10 trees should give approx. 200 litres which is enough to make 2 litres of syrup. You will need to consider carefully how much sap you can manage and don't tap more trees than needed. Sap is highly perishable so you will need to either process immediately or freeze.

Sap should be collected daily. Decant into a lidded bucket to carry sap out of the woodland. Rinse out the bottles with a little clean water and replace on the tree.

Birch sap is
highly perishable
- hygiene is really important

Stop collecting when the sap goes cloudy, yellow/greenish or has a smell. Remove the spile carefully. You should leave the hole open - it will look a bit messy but flow will stop as soon as leaves open and the tree can heal itself.

Resources, more information and contact details are available on the **Dewis Gwyllt** project website:

www.dewisgwyllt.co.uk